Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn 2026

Ar ail Sadwrn braf mis Chwefror a thrwch o eira ar y copaon, braf oedd croesawu wynebau newydd ynghyd a'r cefnogwyr selog i Ganolfan Abergynolwyn i'r Eisteddfod Flynyddol. Y ddau feirniad fu wrthi'n cloriannu y cystadlaethau llwyfan oedd Einir Wyn Jones, Pwllheli (Cerdd a Cherdd Dant) ac Andrea Parry, Y Bala (Llefaru a Llenyddiaeth agored). Roedd yn bleser cael eu cwmni a diolch iddynt am eu gwaith a'u hannogaeth gydol y ddau gyfarfod

Tudur Jones, Tywyn yn ol yr arfer fu'n cyfeilio i'r unawdwyr gydol y dydd a diolchwn am ei wasanaeth ffyddlon i'r Eisteddfod.

Diolch i bawb a ddaeth i gystadlu ymhell ac agos, ac roedd presennoldeb disgyblion Ysgol Craig y Deryn yn amlwg yn eu siwmperi coch yn ystod y prynhawn. Roedd rhai yn mentro ar y llwyfan am y tro cyntaf, neu'n rhoi cynnig ar gystadleuaeth newydd gan gadarnhau pwysigrwydd yr eisteddfodau bach i ennill profiad a hyder ar lwyfan.

Ein beirniaid gwaith cartref Cynradd eleni oedd Sian Jarman (llenyddiaeth) Delyth Thompson (celf) - roeddent wedi eu plesio yn fawr ac yn llongyfarch safon y cystadlu. Diolch i holl ysgolion dalgylch Dysynni am eu cefnogaeth gyda niferoedd ceisiadau uchel ym mhob oedran.

Mr Ifor Davies, Pencaenewydd (Dolgoch gynt) oedd Llywydd y Dydd – diolch iddo am ei bresenoldeb a chefnogaeth i'r Eisteddfod. Wedi cartrefu ym Mhen Llŷn bellach, bydd nifer yn lleol yn ei gofio yn gweithio yn y swyddfa bost yn Nhywyn.

Diolch i'r tri a fu'n arwain gydol y dydd - y Cyng. Beth Lawton, Edward a Dafydd Jones.

Gwerthfawrogir cefnogaeth pawb er llwyddiant a pharhad yr Eisteddfod, a dymuna'r pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar yr holl noddwyr a charedigion. Hebddynt ni fyddai ffyniant yr eisteddfod Flynyddol.

<u>Canlyniadau'r dydd</u>:
Unawd Bl. 2 ac iau :- 1af Gwenno Evans, Rhydymain; 2il Ellis, Ysgol Craig y Deryn; =3ydd Erin a Tova, Ysgol Craig y Deryn
Llefaru Bl. 2 ac iau :- 1af Gwenno Evans, Rhydymain; 2il Tova, Ysgol Craig y Deryn.
Unawd Bl. 3 a 4 :- 1af Gwilym Pennant Jones, Llanbrynmair.
Llefaru Bl. 3 a 4 :- 1af Gwilym Pennant Jones, Llanbrynmair.
Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau :- - 1af Gwilym Pennant Jones, Llanbrynmair; 2il Gwenno Evans Rhydymain.
Unawd Bl. 5 a 6 :- 1af Owain, Ysgol Craig y Deryn; =2il Jacob ac Isla, Ysgol Craig y Deryn.
Llefaru Bl. 5 a 6 :- 1af Owain, Ysgol Craig y Deryn; 2il Jacob, Ysgol Craig y Deryn; =3ydd Saskia, Isla a Sarah, Ysgol Craig y Deryn.
Llefaru Bl. 7 - 9 :- 1af Gwilym Jones, Llanegryn; 2il Annes Jones, Dolgellau.
Unawd Merched Bl 7 - 9 :- 1af Annes Jones, Dolgellau.
Unawd Alaw Werin Bl 7-9:- 1af Annes Jones, Dolgellau.
Unawd Piano Uwchradd :- 1af Aneira Jones, Llanegryn; 2il Gwilym Jones, Llanegryn.

Adran Gwaith Cartref:
Llenyddiaeth –
Meithrin: 1af Emmi; 2il Casi; 3ydd Bella.
Derbyn: 1af Miley; 2il Efa; 3ydd Iris.
Bl. 1 a 2: 1af Bella; 2il Grayson: 3ydd Hugo.
Bl. 3 a 4: 1af Rosie; 2il Robyn; 3ydd Iens.
Bl. 5 a 6: 1af Grace; 2il Nancy; 3ydd Owain.

Gwaith Celf-
Meithrin: 1af Raya; 2il Poppy; 3ydd Bella.
Derbyn: 1af Mabon; 2il Iris; 3ydd Miley.
Bl. 1 a 2: 1af Isla; 2il Hugo; 3ydd Arabella.
Bl. 3 a 4: 1af Gabriel; 2il Imogen; 3ydd Charlotte.
Bl. 5 a 6: 1af Lilly; 2il Edward; 3ydd Isabella.

Canlyniadau'r Hwyr -
Band: 1af Band Arian Abergynolwyn
Unawd Offeryn Agored: 1af Aneira Jones, Llanegryn.
Unawd dan 18 oed: 1af Gwenlli Pennant Jones, Llanbrynmair.
Llefaru dan 18 oed: =1af Aneira Jones a Gwenlli Pennant Jones.
Rhyddiaith dan 18 oed: 1af Hywyn Euros, Llangybi.
Englyn: 1af Siw Hartson, Staines.
Telyneg: 1af Mair Tomos Ifans, Dinas Mawddwy.
Unawd dan 25 oed: 1af Erin Jones, Glanyrafon; 2il Huw Jarman, Talyllyn.
Llefaru dan 25 oed: 1af Erin Jones, Glanyrafon; 2il Huw Jarman, Talyllyn.
Unawd Sioe Gerdd dan 25 oed: 1af Huw Jarman, Talyllyn; 2il Erin Jones, Glanyrafon.
Canu Emyn: 1af Erin Jones, Glanyrafon; 2il Marianne Powell, Llandre; 3ydd Robin Hughes, Nantmor.
Unawd Cerdd Dant Agored: 1af Erin Jones, Glanyrafon; 2il Huw Jarman, Talyllyn.
Limrig: 1af Glyn Jones, Y Bala.
Brawddeg: 1af Glyn Jones, Y Bala.
'Sgen ti Dalent?: 1af Erin Jones, Glanyrafon; 2il Gwenlli Pennant, Llanbrynmair; 3ydd Rhys Jones, Dinmael.
Can Werin Agored: 1af Robin Hughes, Nantmor; 2il Marianne Powell, Llandre; 3ydd Erin Jones, Glanyrafon.
Unawd Gymraeg: 1af Robin Hughes, Nantmor; 2il Marianne Powell, Llandre; =3ydd Erin Jones, Glanyrafon ac Elfed Jones, Trawsfynydd.
Prif Lefaru: 1af Owain Rhys, Chwilog; 2il Maria Evans, Caerfyrddin; 3ydd Rhys Jones, Dinmael.
Her Unawd: 1af Robin Hughes, Nantmor; 2il Marianne Powell, Llandre; 3ydd Elfed Jones, Trawsfynydd.